# DIFA'R YSFA (NEU GLEFYD Y CRAFU) O'R DDIADELL GYMREIG

## Diben

1. Rhoi'r diweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflymu'r broses o reoli, lleihau a dileu'r ysfa o ddefaid yng Nghymru.

## Y Cefndir

2. Mae'r ysfa yn glefyd heintus a marwol. Bu'n endemig yng Nghymru am o leiaf dwy ganrif. Mae'n un o'r clefydau a elwir yn TSE (Transmissible Spongiform Encephalopathies) sydd hefyd yn cynnwys BSE a CJD. Er nad oes tystiolaeth bod BSE wedi lledaenu i ddiadellau defaid Cymru, neu unrhyw le arall, ni ellir diystyru'r posibilrwydd. Dengys ymchwil bod BSE yn gallu cael ei drosglwyddo i ddefaid o dan amodau arbrawf. Mae profion yn cael eu cynnal ar ymennydd anifeiliaid a fu'n dioddef o'r ysfa i weld a oes BSE yn cuddio y tu ôl i'r clefyd. Nid oes prawf eto ar gyfer anifeiliaid byw sy'n gallu gwahaniaethu rhwng BSE a'r ysfa.

3. Mae'r Ysfa yn glefyd hysbysadwy a rhaid dweud wrth yr awdurdodau bob tro y ceir achos ohono. Mae defaid â'r ysfa arnynt yn cael eu hynysu a'u tynnu o'r gadwyn fwyd. Ychydig o achosion o'r ysfa a geir: rhwng 1998 a diwedd 2001, cadarnhadwyd 238 o achosion yng Nghymru ac mae 76 o achosion wedi'u cofnodi hyd yma eleni (hyd at 30 Medi 2002). Mae yna dystiolaeth fodd bynnag nad yw'r awdurdodau yn dod i glywed am bob achos ac mae rhaglen i fonitro lladd-dai a stoc marw ar y gweill.

4. Mae gwyddonwyr ac arbenigwyr diogelwch bwyd yn yr UE a'r DU yn cytuno bod angen ystyried y posibilrwydd theoretig y gallai BSE fod wedi'i drosglwyddo'n naturiol i ddefaid a bod angen magu ymwrthedd i bob TSE. Bu pwyso ar y llywodraeth i baratoi rhaglenni i ddifa'r ysfa a magu ymwrthedd i TSEs trwy rwystro'r teipiau genetig sydd fwyaf agored i ddal y clefyd rhag magu.

5. Mae'r atodlen sydd wedi'i **hamgau** gyda'r papur hwn yn rhestru'r cyfuniadau genetig amrywiol sydd i'w cael mewn defaid. Mae'r genoteipiau sydd â'r ymwrthedd cryfaf i TSEs ar ben y rhestr. Canolbwynt yr ymdrechion ar lefel Ewrop, y DU a Chymru i ddifa'r ysfa yw'r profion i enoteipio defaid a fydd yn galluogi bridwyr i gymryd camau priodol i fagu diadellau sydd ag ymwrthedd i'r clefyd.

6. Yn y cyfamser, bydd sefyllfa diwydiant defaid Cymru o ran y farchnad yn parhau'n simsan heb fod camau'n cael eu cymryd i gryfhau ymwrthedd y ddiadell genedlaethol. Mae hyn felly yn flaenoriaeth i'r diwydiant, i iechyd y cyhoedd ac i gefn gwlad Cymru.

## Cynllun Cenedlaethol yr Ysfa

7. Mae'r gwaith i ddifa'r ysfa yn digwydd ar y lefel Brydeinig trwy gyfrwng Cynllun Cenedlaethol yr Ysfa (NSP). Cafodd yr NSP ei ddatblygu gan adrannau amaeth

gweinyddiaethau datganoledig Prydain Fawr.  Ei nod yw lleihau achosion o'r ysfa yn y ddiadell genedlaethol ac yn y pen draw, cael gwared arni'n llwyr.  Cafodd Cymal 1 y Cynllun ei lansio ym mis Gorffennaf 2001.  O ganlyniad, mae rhyw 59,000 o ddefaid wedi'u genoteipio.  Ers ei lansio, mae'r NSP wedi'i ehangu i gynnwys defaid o ddiadellau gwaed pur sydd heb eu cofrestru, yn ogystal â'r diadellau pedigri cofrestredig.  Mae rheolau'r cynllun hefyd wedi'u newid er mwyn iddo allu cynnwys mwy o fridiau mynydd.  Mae ymgynghoriad wrthi'n cael ei gynnal ar ehangu'r NSP i gynnwys pob diadell sydd wedi cael achos o'r ysfa ers 1998. Trwy Gynllun Diadellau'r Ysfa (SFS), bydd pob diadell sydd wedi cael achos o'r ysfa ers 1998 yn cael dod yn aelod o'r NSP.  Câi defaid yn niadellau'r SFS sydd â thuedd ynddynt i ddal yr ysfa eu tynnu o'r gadwyn fwyd.

8. Hyd yn hyn, mae 1619 o fridwyr defaid yng Nghymru wedi ymuno â'r NSP.  Er bod hyn yn ddechrau calonogol, dim ond 31% ydyw o'r cyfanswm allai wneud.  Mae llawer iawn wedi'i wneud i hybu'r NSP a denu ffermwyr i ymuno.  Mae swyddogion y Cynulliad ac eraill wedi chwarae rhan flaenllaw yn yr ymdrechion hyn a bydd y gwaith yn parhau.  Mae'r rheolau o ran defnyddio a chadw hyrddod lled-ymwrthol, neu anifeiliaid Teip 3 fel y'u gelwir, wedi'u llacio a dylai hynny ddenu mwy o fridwyr o Gymru.

9. Mae'r NSP hefyd yn gweithio ar gynllun i greu archif o'r genoteipiau hynny y mae perygl eu colli wrth fagu diadellau sydd ag ymwrthedd i'r ysfa.  Er bod y genoteipiau hyn yn annymunol ar hyn o bryd am eu bod yn cadw'r duedd i ddal y clefyd, mae'n ddigon posibl bod teithi dymunol ynddynt hefyd y byddai'n beth da eu magu yn ôl i'r ddiadell fagu wedi iddi fagu ymwrthedd i'r ysfa.

**Mentrau Ewropeaidd**

10. Mae cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar enoteipio wrthi'n cael eu trafod ar lefel gweithgor.  Mae'r rhan fwyaf o wledydd yr UE bellach yn derbyn yr athroniaeth y tu ôl i enoteipio, er bod gan nifer ohonynt bryderon am agweddau ymarferol ac amseru.

11. Mae'r cynigion sy'n cael eu trafod gan y Gweithgor TSE yn cynnig yr hyn sydd ei angen ar raglen fagu, gan gynnwys lladd a sbaddu hyrddod a chanddynt genoteipiau sy'n dueddol o gael yr ysfa a rhwystro mamogiaid tueddol rhag magu. Mae'r cynigion yn awgrymu amserlen hefyd i aelod-wledydd gadarnhau statws ymwrthedd diadellau i TSE.  Diadellau gwaed pur cofrestredig fyddai'n cael y statws hwn, ynghyd ag unrhyw ddiadellau eraill y carai llywodraethau eu gweld yn cael y statws.  Yn y DU, gallai hynny gynnwys diadellau gwaed pur sydd heb eu cofrestru.  Fel ag y maent ar hyn o bryd, mae cynigion y Comisiwn yn eithaf tebyg i Gynllun Cenedlaethol yr Ysfa.

11. 12. Mae'n debygol hefyd y bydd yr UE yn ystyried cynigion eraill ar gyfer delio â ffermydd sydd wedi dioddef achosion o'r ysfa.

**Mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru**

13. Neilltuir arian yn ganolog i Gymru ar gyfer yr NSP, rhaglen fawr ag ynddi elfen fawr o fuddsoddi cyhoeddus: neilltuwyd £40 miliwn yn 2002-03. Ond mae yna resymau pam fod angen gwneud mwy. Yn ystod gaeaf 2001-02, bu cyd-weithgor o gynrychiolwyr y sector defaid, academyddion a swyddogion y Cynulliad yn ystyried beth allai gael ei wneud i brysuro'r rhaglen i fagu ymwrthedd i'r ysfa yng Nghymru. Yn ôl modelau a gomisiynwyd gan y Cynulliad, mae defaid mynydd Cymru, oherwydd eu geneteg, yn fwy teuddol na'r ddafad gyffredin o gael yr ysfa. Byddai'n cymryd gormod o amser, o ddibynnu ar Gynllun Cenedlaethol yr Ysfa yn unig, i fagu diadell a chanddi ddigon o ymwrthedd i allu ymateb i newid i'r farn bresennol am berygl y clefyd i bobl.

14. Gwnaeth y gweithgor argymell menter ar wahân i Gymru gyda'r amcan o gael wyn lled-ymwrthol i ymuno â'r gadwyn fwyd cyn pen 10 mlynedd wedi'i dechrau; ystyr 'lled-ymwrthol' yw dafad a chanddi o leiaf un copi o'r genoteip mwyaf ymwrthol, ARR.

15. Ar sail casgliadau'r gweithgor, o dan y penawd Cynllun Gwella Diadell Cymru (WFIS), mae rhaglen o weithgareddau'n cael ei llunio i ategu gwaith yr NSP a phrysuro'r broses o gael gwared ar yr ysfa yng Nghymru. Prif ffocws WFIS yw rhaglen i enoteipio mamogiaid, gan ddatblygu'r gwaith a wnaed llynedd o dan Gynllun Genoteipio Mamogiaid Cymru (WEGS). O dan WEGS, cafodd rhyw 25,000 o ddefaid Strategaeth Ddefaid Cymru eu genoteipio a'u tagio gan ddefnyddio dyfais adnabod electronig.

16. Mae'r Adran Amaeth, felly, wrthi'n gweithio gyda Chynllun Cenedlaethol yr Ysfa i ddatblygu cynllun i fwrw ymlaen â gwaith WEGS i enoteipio rhyw 500,000 o famogiaid dros y tair blynedd nesaf. Dros y cyfnod 2003-4 i 2005-6, bydd £10.5m ar gael. Manteision cynnal WEGS II fel cynllun ategol i'r NSP yw y bydd yn gallu manteisio ar y cymorth Prydeinig sydd ar gael i gynnal rhaglenni mawr ar gyfer genoteipio mamogiaid; bydd profion WEGS yn cael eu hachredu'n otomatig o dan yr NSP; a bydd arbedion ariannol i'r Cynulliad o gynnal y rhaglen fel rhan o'r NSP;

17. Prif elfennau WEGS II yw:

- Profion genoteipio (gwaed a labordy) ar bob mamog gyfnewid mewn diadellau cymwys (bydd y cynllun yn agored yn unig i aelodau'r NSP er y gall bridwyr o Gymru fod yn aelodau o'r NSP a WEGS II yr un pryd)
- Yn agored i fridwyr defaid pedigri a gwaed pur (fel y cynllun genoteipio hyrddod)
- Tag adnabod electronig ar bob dafad sydd wedi cael prawf (gan bolus).
- Rhwystro genoteipiau sydd fwyaf agored i'r ysfa rhag magu.
- Cyngor magu ar ôl cynnal y profion.

18 Rydym hefyd yn gobeithio cefnogi WEGS II gyda gwasanaeth 'hwrdd potel' i'w gynnal law yn llaw â'r cyngor magu a rhaglen i hybu dulliau gwahanol o fagu ymwrthedd i mewn i'r ddiadell. Mae manylion y prosiectau hyn hefyd wrthi'n cael

eu datblygu.  Mae trefn ar wahân ar gyfer ceisio am arian gwladol ar gyfer gwasanaeth AI y Cynulliad gerbron y Comisiwn.

19. Bydd cynllun Prydeinig ar gyfer genoteipio mamogiaid yn rhedeg o Dachwedd 2002 i Ebrill 2003 neu tan y bydd y cyfleusterau labordy i gyd yn llawn.  Fe fydd felly yn rhaglen untro tymor byr a bydd yn wahanol i WEGS II gan y bydd gofyn i ffermwyr dalu milfeddygon i gynnal y profion gwaed ac ni fydd ID electronig ar anifeiliaid.

**Argymhelliad**

20. Gwahoddir y Pwyllgor i:

- nodi manylion cynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i brysuro ymdrechion i ddifa'r ysfa yng Nghymru.

**Pwynt Cyswllt**

Gwyn Jones
Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid
est 3831.

# Atodiad

## Genoteipiau a'u hymwrthedd i'r Ysfa

| Genoteip | Maint yr ymwrthedd/ y duedd i gael y clefyd |
|---|---|
| | |
| **ARR/ARR** | Defaid sydd â'r ymwrthedd cryfaf i'r ysfa |
| **ARR/AHQ**<br>**ARR/ARH**<br>**ARR/ARQ** | Defaid sydd ag ymwrthedd i'r ysfa ond bydd gofyn eu dethol yn ofalus wrth eu dewis i fagu. |
| **ARQ/ARH**<br>**ARQ/AHQ**<br>**AHQ/AHQ**<br>**ARH/ARH**<br>**AHQ/ARH**<br>**ARQ/ARQ** | Defaid a chanddynt duedd i gael i'r ysfa. |
| **ARR/VRQ** | Defaid sydd â geneteig sy'n eu gwneud yn agored i ddal yr ysfa. |
| **AHQ/VRQ**<br>**ARH/VRQ**<br>**ARQ/VRQ**<br>**VRQ/VRQ** | Defaid sy'n agoried iawn i ddal yr ysfa. Yn ddelfrydol, ni ddylid eu defnyddio i fagu. |